George Williams 1821–1905
Sylfaenydd yr YMCA (Young Men's Christian Association)

Ganwyd George Williams ar 11 Hydref 1821 yn Ashway Farm, Dulverton, Gwlad yr Haf, yr ieuengaf o saith o feibion i'r amaethwr Amos Williams a'i wraig, Elizabeth. Addysgwyd ef yn ysgol Miss Timlett yn Dulverton, ac yna yn ysgol Gloyns, ysgol ramadeg breifat yn Tiverton. Gadawodd yr ysgol yn dair ar ddeg oed er mwyn cynorthwyo ar y fferm. Fe'i disgrifodd ei hun fel gŵr ifanc di-hid, difeddwl a di-Dduw ac yn rhegwr brwd. Symudodd George Williams i Lundain o Dulverton ym 1841 pan oedd yn 20 oed. Fe'i cyflogwyd fel dilledydd cynorthwyol i'r Meistri Hitchcock a Rogers yn St Paul's Churchyard.

Er iddo gael ei fagu'n Eglwyswr, daeth i'r bywyd mewn eglwys Annibynnol pan oedd yn un ar bymtheg oed a bu'n efengylydd o argyhoeddiad am weddill ei oes. Oherwydd ei allu amlwg fe'i dyrchafwyd yn fuan o fewn i'r cwmni – lle roedd 140 o gynorthwywyr – i fod yn brynwr. Am ddeng mlynedd bu'n aelod o eglwys gynulleidfaol Weigh House. Roedd yr addoldy poblogaidd hwn ar Fish Street Hill ond cafwyd adeilad newydd ar Duke Street – oddi ar Oxford Street – oedd yn dal 1,500. Eglwys ydoedd ar gyfer cyfoethogion.

Defnyddiai ei amser hamdden prin i efengylu ac i gyflawni gwaith dirwestol. Fel Cristion ifanc daeth dan ddylanwad gweithiau Charles G. Finney. Pwysleisiai Finney yr angen am edifeirwch a thröedigaeth a gweddïo mewn grwpiau bychain. Roedd nifer o ddynion ifanc wedi dechrau cyfarfod gyda'i gilydd i astudio'r Beibl ar nos Fercher yn adeilad gwaith Hitchcock a Rogers. Roeddent yn gweddïo'n gyson ar i ddynion ifanc gael eu hachub. Atebwyd eu gweddïau pan gredodd perchenogion y gwaith. Cynhaliwyd cyfarfod ddydd Iau 6 Mehefin 1844 a phenderfynodd oddeutu tri ar ddeg o ddynion ifanc sefydlu cymdeithas i annog gwŷr ifanc o fewn i'r diwydiant dilladu i efengylu. Yr oedd y tri ar ddeg o amrywiol enwadau. Erbyn y pumed cyfarfod roedd y niferoedd yn cynyddu a phenderfynwyd mabwysiadu'r enw Young Men's Christian Association.

Ar y dechrau dim ond Cristnogion ac aelodau eglwysig a dderbynnid i'w rhengoedd. Eu nod oedd hyrwyddo 'teyrnas y Gwaredwr, achub eneidiau a gwella cyflwr ysbrydol a meddyliol gwŷr ifanc'. Lledodd y mudiad ac erbyn dechrau 1845 roedd canghennau eraill wedi eu sefydlu yn Llundain, Leeds a Manceinion.

Ym 1851 pan oedd yr Arddangosfa Fawr yn Llundain cynhaliwyd ymdrech genhadol arbennig. Rhannwyd Llundain yn 36 ardal a dosbarthwyd dros 350,000 o dractiau. Cynhaliwyd cynhadledd ryngwladol ym Mharis ym 1855 pan ddaeth cant namyn un o gynrychiolwyr o naw gwlad at ei gilydd. Yno llaciwyd ychydig ar yr amodau ymaelodi. Ym 1853 priododd George Williams ferch Hitchcock sef Helen. Pan fu farw ei dad yng nghyfraith daeth Williams yn bennaeth ar y cwmni. Yn y cyfnod hwn symudodd at yr Anglicaniaid gan fynd i addoli yn y Portman Chapel, Baker Street, sef St Paul's, Portman Square, yn ddiweddarach. Ym 1881 prynwyd prydles Exeter Hall yn y Strand am £25,000. Gwnaed hynny trwy wahodd pedwar dyn i gyfrannu £5,000, a rhoddodd George Williams y £5,000 oedd yn weddill. Daeth hwn yn bencadlys yr YMCA.

Ym 1894 fe'i gwnaed yn farchog gan y frenhines am ei waith gyda'r YMCA. Bu farw ar 6 Tachwedd 1905 a chladdwyd ei gorff mewn man anarferol, sef y crypt yn Eglwys Gadeiriol St Paul, ac y mae ffenestr yn Abaty Westminster wedi ei gosod er cof amdano. Mae canghennau o'r YMCA erbyn hyn yn Affrica, India, De America, China a Japan.